# Canllawiau 2024-25
# Cronfa Arddangos Ffilm

## Cynnwys


Cyflwyniad .......................................................................... 2

Ar gyfer pwy mae'r gronfa hon? .................................................. 3

Beth yw pwrpas y gronfa hon? ..................................................... 3

Costau Cymwys ........................................................................... 3

Ni allwn ariannu: ......................................................................... 4

Faint o gyllid sydd ar gael? ........................................................... 5

Sut ydw i’n ymgeisio?.................................................................... 5

Beth sy’n digwydd nesaf? .............................................................. 6

Sut byddwn yn gwneud penderfyniad?........................................... 6

Camau Nesaf ............................................................................... 6

Cwynion, Adborth ac Ymholiadau ................................................. 7

Rhoi adroddiad ........................................................................... 7

Diogelu Data ............................................................................... 8

Manylion cyswllt .......................................................................... 8

Cwestiynau Cyffredin ................................................................... 9

Rwy’n dod o awdurdod lleol, a allaf wneud cais? ........................... 9

Beth ellir ei ddefnyddio fel arian cyfatebol? .................................. 9

Pa gymorth arall mae Ffilm Cymru yn ei gynnig? ........................... 9

## Cyflwyniad

Ein cenhadaeth yw datblygu sector ffilm cynaliadwy a diwylliant ffilm sy'n gweithio i bawb ledled Cymru.

Mae'r alwad agored yma ar gyfer y Gronfa Arddangos Ffilm yn gwahodd ceisiadau gan sinemâu annibynnol, gwyliau ffilm, digwyddiadau un-tro a sinemâu cymunedol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Mae Ffilm Cymru wedi cefnogi'r gwaith o arddangos ffilm yng Nghymru ers 2006. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r cymorth hwn wedi bod ar ffurf grantiau blynyddol a ddyfarnwyd i bortffolio trawiadol o arddangoswyr ffilm sy'n gweithio i gynnal a chynyddu maint eu cynulleidfaoedd trwy arferion arloesol, cynhwysol a chynaliadwy.

Deallwn fod pryderon yn bodoli sy'n gyffredin i'r sector gyfan gan gynnwys y cynnydd sylweddol mewn costau byw a newidiadau i ymddygiad cynulleidfaoedd. Rydym hefyd yn cydnabod fod pandemig Covid-19 wedi cyflwyno heriau economaidd unigryw sydd yn parhau i fod yn broblemus i sefydliadau a chynulleidfaoedd.

Gan lynnu at ein hymrwymiad i gefnogi arloesedd, cynhwysiant ac arferion cynaliadwy, bydd y gronfa hon yn cefnogi arddangoswyr i gynnal a datblygu eu gwaith mewn sector sy'n esblygu, gan weithio mewn ffyrdd newydd a chysylltu â chynulleidfaoedd a'u cymunedau ehangach trwy ffilm.

Yn 2024-25, bydd Ffilm Cymru yn gwahodd ceisiadau ar ddau achlysur. Bydd y dyddiadau cau ar gyfer derbyn y ceisiadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan Ffilm Cymru.

Mae'r alwad yn agored i geisiadau o hyd at £15,000, a hyd at 75% o gyfanswm y costau, i gefnogi gweithgaredd fydd yn cael ei gynnal dros gyfnod o12 mis o ddechrau'r dyfarniad.

Mae'r cyllid hwn a gynigir yn cynnwys arian loteri sydd wedi ei ddirprwyo gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

## Ar gyfer pwy mae'r gronfa hon?

Mae'r Gronfa Arddangos Ffilm yn cefnogi sefydliadau diwylliannol a grwpiau cymunedol sy'n gweithio i wella mynediad i ffilm annibynnol yng Nghymru. Mae’r cyllid hwn yn agored i geisiadau gan y rheini sy’n cynnal sinemâu annibynnol, gwyliau ffilm, dangosiadau un-tro, a sinemâu cymunedol sydd wedi’u lleoli yng Nghymru.

Ni all Ffilm Cymru gefnogi sinemâu prif ffrwd, sinemâu masnachol a/neu fentrau cwbl fasnachol sydd â’r prif ddiben o gynhyrchu elw.

## Beth yw pwrpas y gronfa hon?

Mae’r gronfa hon yn bodoli i gefnogi arddangoswyr ffilmiau sydd wedi’u lleoli yng Nghymru, gan gynnwys Sinemâu Annibynnol, Gwyliau Ffilmiau, Sinemâu Cymunedol a Sinemâu Untro. Rydyn ni’n chwilio am gynigion arloesol sy’n dod â chynulleidfaoedd Cymru at ei gilydd i fwynhau ffilmiau beiddgar sy’n ysbrydoli ac yn cyffroi. Rydyn ni’n awyddus iawn i gefnogi syniadau sy’n dangos ymrwymiad i’r Gymraeg, cynaliadwyedd amgylcheddol, a chwalu rhwystrau economaidd, ac sy’n ystyried cynulleidfaoedd anabl, cynulleidfaoedd ifanc, cynulleidfaoedd dosbarth gweithiol, a chynulleidfaoedd Du a’r Mwyafrif Byd-eang.

**Costau Cymwys**

Gallwn ariannu:

- Marchnata a chyhoeddusrwydd
- Ymchwil marchnata, i gasglu barn cynulleidfaoedd
- Dangosiadau a digwyddiadau ar gyfer cynulleidfa gyhoeddus, wyneb yn wyneb ac ar-lein
- Trwyddedau ffilm a thrafnidiaeth
- Costau staff ar gyfer y rhai sy'n gweithio neu'n anghymwys ar i dderbyn  ffyrlo. Mae hyn yn berthnasol i swyddogaethau sy'n

ymwneud yn uniongyrchol â'r ddarpariaeth ffilm neu'r ŵyl gan gynnwys rhaglennu, gweithrediadau a marchnata

- Costau swyddfa, staffio a chostau cyffredinol sy’n ymwneud ag adeiladau (Dylai'r rhain fod yn gymesur â'r gweithgaredd ffilm annibynnol yr ydych yn ei gynnig)
- Llogi lleoliad, sinema neu offer ar gyfer dangosiadau a digwyddiadau naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein
- Costau tanysgrifio ar gyfer meddalwedd a gwasanaethau ar-lein, yn gysylltiedig â chasglu barn a dealltwriaeth o’r gynulleidfa, dangosiadau ar-lein a digwyddiadau
- Costau a thrafnidiaeth gwirfoddolwyr
- Gweithgarwch monitro a gwerthuso, gan gynnwys ymchwil marchnata
- Hyfforddiant ar gyfer staff a gwirfoddolwyr
- Costau sy’n gysylltiedig â gwella mynediad i gynulleidfaoedd (e.e. cyfleusterau gofal plant, lluniaeth, trafnidiaeth)

**Ni allwn ariannu:**

- Dangosiadau wyneb yn wyneb a digwyddiadau sy'n cael eu cynnal y tu hwnt i Gymru
- Sefydliadau sydd wedi eu lleoli y tu hwnt i Gymru
- Sefydliadau na allant ddangos angen ariannol
- Gweithgareddau sydd eisoes wedi digwydd, neu nwyddau a gwasanaethau sydd eisoes wedi eu ‘prynu’ pan mae’r cais yn cael ei gyflwyno
- Gweithgaredd sydd ddim yn gysylltiedig â ffilm neu’r ddelwedd symudol
- Cymorth ar gyfer gwariant cyfalaf sylweddol, addasiadau neu welliannau i leoliadau
- Derbyniadau diodydd ac adloniant cyffredinol, wyneb yn wyneb neu ar-lein
- Gweithgareddau masnachol
- Rhwydweithio, hyfforddiant a chyfleoedd i wneuthurwyr ffilm, wyneb yn wyneb neu ar-lein. Mae Ffilm Cymru yn cefnogi’r math yma o weithgaredd trwy Rwydwaith Talent Cymru y BFI.

- Gweithgaredd sydd eisoes yn cael ei ariannu o ffynonellau eraill.

## Faint o gyllid sydd ar gael?

Yn ystod 2024-25, bydd Ffilm Cymru Wales yn cefnogi arddangoswyr drwy ddau gylch ariannu. Dyma'r dyddiadau cau:

- Cylch Un: 8 Gorffennaf 2024
- Cylch Dau: 4 Tachwedd 2024.

Mae pob cais wedi'i gyfyngu i uchafswm o £15,000 y flwyddyn fel grant na ellir ei adennill, gyda'r cyllid yn cael ei gapio ar 75% o gyfanswm y gyllideb. Dylai gweddill y balans gynnwys ffynonellau cyllid ychwanegol, incwm prosiect, a gall hefyd gynnwys cymorth mewn da.

Pe byddwch yn llwyddiannus yng nghylch un, ni chewch ailymgeisio yng nghylch dau. Fodd bynnag, pe byddwch yn aflwyddiannus yn eich cais yng nghylch un gallwch ailymgeisio pan fydd cylch dau yn agor.

## Sut ydw i'n ymgeisio?

**Gwneud Cais**

Unwaith bydd y sgwrs hon wedi'i chynnal, gellir cyflwyno'ch cais. Bydd y cais yn cynnwys:

- Y Ffurflen Gais wedi ei chwblhau (mae enghraifft o'r ffurflen gais i'w gweld ar ein gwefan)
- Cyfrifon Rheoli a Chyfrifon Blynyddol mwyaf diweddar (lleoliadau Sinema yn unig)
- Cyllideb y Prosiect (incwm a gwariant arfaethedig sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch cynnig)
- Polisïau gan gynnwys Cynaliadwyedd, Polisïau Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed a Pholisïau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Cyn gwneud cais, efallai y byddwch am drafod eich cynnig gydag aelod o'r tîm. Os hoffech wneud hynny, dilynwch y ddolen hon: https://calendly.com/ffilmcymruaudience/exhibitor-fund-application-24-25

Am gymorth, cysylltwch â thîm Ffilm Cymru drwy'r manylion cyswllt isod.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

**Cyflwyno'r Ceisiadau**

Rhaid cyflwyno pob cais i audience@ffilmcymruwales.com - ni allwn dderbyn unrhyw geisiadau a anfonir i gyfeiriadau e-bost eraill neu drwy'r post.

Byddwn yn anfon e-bost o gadarnhad yn cynnwys cyfeirnod a dolen i'n ffurflen Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n anhysbys. Bydd angen i'r ymgeisydd arweiniol lenwi'r ffurflen hon er mwyn cwblhau'ch cais.

## Sut byddwn yn gwneud penderfyniad?

Bydd pob cais am gyllid yn cael ei ystyried gan banel sy'n cynnwys aelod o Fwrdd Ffilm Cymru Wales, y Prif Weithredwr, y Rheolwr Cyfathrebu, a'r Cydlynydd Prosiect Cynulleidfa.

Sylwch y gall y broses hon gymryd hyd at 6 wythnos o'r dyddiad cau.

## Camau Nesaf

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu trwy e-bost. Dilynir hyn gan lythyr o gynnig yn cadarnhau'r symiau ac unrhyw wybodaeth neu amodau sy'n weddill sy'n ofynnol ar gyfer y dyfarniad. Gofynnir i ymgeiswyr lofnodi'r cynnig hwn er mwyn ei dderbyn, ac unwaith y bydd yr amodau wedi'u bodloni, bydd Ffilm Cymru Wales yn cyhoeddi cytundeb ariannu ffurf hir.

Mae'r cytundeb ariannu ffurf hir yn adlewyrchu nodau ac amcanion y cais yn ogystal â manylu ar ofynion ac amserlenni ar gyfer y prosiect, gan gynnwys casglu data, prosesau gwerthuso a thelerau ad-dalu os bydd toriad heb ei gywiro.

Yn anffodus, ni all Ffilm Cymru Wales ariannu pob cais a gyflwynir, fodd bynnag, ein nod yw cynnig arweiniad ac adborth byr ar bob cais. Rhoddir gwybod i ymgeiswyr aflwyddiannus os fydd bosib iddynt ailgyflwyno cais tebyg os fyddant wedi mynd i'r afael â'r materion a godwyd.

## Cwynion, Adborth ac Ymholiadau

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cyfeiriwch at ein Cwestiynau Cyffredin yn y lle cyntaf, neu e-bostiwch audience@ffilmcymruwales.com. Os hoffech roi adborth neu wneud cwyn, gweler ein gweithdrefn yma.

## Rhoi adroddiad

Mae'n ofynnol i bob prosiect gyflwyno adroddiad terfynol o fewn dau fis i ddiwedd y prosiect. Yn dibynnu ar hyd eich prosiect, byddwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i chi gyflwyno adroddiadau interim parthed y swyddfa docynnau ym mis Medi, os yn berthnasol. Rydym yn gwerthfawrogi adroddiadau tryloyw sy'n rhannu eich profiad ar lawr gwlad.

Byddwch yn derbyn pecyn cymorth fydd yn cynnwys canllaw a thempledi i'ch cefnogi i gwblhau gofynion yr adroddiad. Bydd eich adroddiad yn cynnwys:

- Y Gwerthusiad Naratif (archwilio'r llwyddiannau, yr heriau a'r hyn a ddysgwyd)
- Adroddiad am y Swyddfa Docynnau (yn manylu ar unrhyw weithgaredd sgrinio a thocynnu os yn berthnasol)
- Cyllideb Incwm a Gwariant Gwirioneddol trwy gydol y cyfnod ariannu

- Casglu ynghyd Data Monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cynulleidfa ac Arolwg Monitro EDI mewnol y staff

Ein nod yw ymweld â chymaint o ymgeiswyr a ariennir yn ystod y cwrs, a faint sy'n rhesymol bosibl, a byddwn mewn cysylltiad yn y cyfnod cyn ac yn ystod y prosiect i gynnig cefnogaeth a threfnu ymweliad (os yn bosibl).

## Diogelu Data

Bydd yr holl ddata a gesglir fel rhan o’r EOI, y broses ymgeisio a thrwy gydol y prosiectau llwyddiannus yn digwydd yn unol â Pholisi Diogelu Data a Phreifatrwydd Ffilm Cymru Wales. Mae rhagor o wybodaeth a’r polisi preifatrwydd llawn ar gael yma.

## Manylion cyswllt

Caiff y Gronfa Arddangos Ffilmiau ei gweinyddu gan
Georgina Morgan (Cydlynydd y Prosiect)
georgina@ffilmcymruwales.com

# Cwestiynau Cyffredin

**Rwy'n dod o awdurdod lleol, a allaf wneud cais?**
Mae croeso i awdurdodau lleol wneud cais lle gallant ddangos angen a chysylltiad â'r sector celfyddydol a chreadigol ehangach. Rydym yn annog awdurdodau lleol i edrych ar ddatblygu partneriaethau gyda sefydliadau celfyddydol a ffilm sydd eisoes yn bodoli.

**Beth ellir ei ddefnyddio fel arian cyfatebol?**
Gall arian cyfatebol amrywio o arian o ffynonellau ychwanegol, i incwm a enillir, i amser a roddir mewn da. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gefnogaeth gwirfoddolwyr (lle bo'n briodol), llogi lleoliad ac amser staff. Dylid dangos manylion sut rydych wedi cyfrifo amser mewn da, a'ch tybiaethau ynghylch incwm a enillwyd (e.e. rhagamcan o nifer y tocynnau a werthwyd am bris £x).

**Pa gymorth arall mae Ffilm Cymru yn ei gynnig?**
Ffilm Cymru Wales yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilm o Gymru.

Rydym yn cynnig cymorth amrywiol i wneuthurwyr ffilm a aned yng Nghymru neu sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, ac sy'n awyddus i ddatblygu a chynhyrchu ffilmiau nodwedd. Rydym hefyd yn datblygu rhaglenni hyfforddi i ddatblygu sgiliau newydd a llwybrau gyrfa i mewn i'r diwydiant ffilm. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan Ffilm Cymru.

Mae Ffilm Cymru Wales hefyd yn gartref i Rwydwaith BFI Cymru, sydd â nifer o gynlluniau sy'n helpu i gefnogi gyrfaoedd gwneuthurwyr ffilm newydd. Os mai nod eich cynnig yw cefnogi digwyddiadau rhwydweithio neu wneuthurwyr ffilm, rydym yn argymell cysylltu â'r tîm drwy network@ffilmcymruwales.com.